

GWAHARDDDEDIG TAN 12PM 4 AWST 2016

Papur materion rhif 1

Systemau cyfiawnder sifil

Cefndir

Mae'r ymchwiliad Atebolrwydd ac iawndal yn un o 13 ymchwiliad a gyhoeddwyd gan Gadeirydd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn Nhachwedd 2015. Mae'r Ymchwiliad yn ceisio deall beth mae dioddefwyr a goroeswyr yn ystyried i fod iawn digonol, ac i ba raddau y gellir cyflawni hyn trwy'r broses o ddod ag achos sifil yn erbyn y camdriniwr ac/neu sefydliad cyfrifol. Mae'r Ymchwiliad yn cydnabod y gall nifer o ddiodeswyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol geisio deilliannau sy'n ehangach nag unrhyw broses iawn na'r rhai a gyflawnir trwy hawliad sifil am iawndal. Er bod ffocws y papur hwn ar y broses hawliadau sifil, gobeithia'r Ymchwiliad y bydd y barnau a ddarparwyd yn bwydo i mewn i unrhyw ymchwiliad ehangach i ddiwygiadau posibl ac/neu ddewisiadau amgen i'r broses hon.

Yn natganiad y Cadeirydd ar 27 Tachwedd 2015, fe esboniodd y byddai'r Ymchwiliad yn archwilio i ba raddau yr oedd gwasanaethau a datrysiadau presennol sydd ar gael i ddiodeswyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn darparu iawn effeithiol ar gyfer y niwed maent wedi ei ddiodesf. Dywedodd y byddai'r Ymchwiliad yn ystyried i ba raddau mae mecanweithiau o'r fath ar gyfer cefnogaeth ac iawndal yn helpu neu'n llesteirio cyflawniad yr hawl i wirionedd, atebolrwydd, iawndal a sicrwydd na fydd yn digwydd eto. Mae'n bwysig nodi, yn unol â chylch gorchwyl yr Ymchwiliad, mai dim ond honiadau o gam-drin rhywiol ble cafwyd methiant sefydliadol y mae'r papur hwn yn eu trafod.

Gwneud hawliad sifil am iawndal

Mae'r broses hawliadau sifil yn broses wrthwynebus, ble mae'n rhaid i'r hawliwr brofi ei achos/ei hachos yn ôl yr hyn sy'n debygol. Golyga hynny, p'un a yw'n fwy tebygol na pheidio fod y cam-drin wedi digwydd. Mae hawliadau yn cael eu profi yn y llys gan farnwyr a fydd fel arfer yn cynnwys gwranddo ar dystiolaeth tystion a thystiolaeth gan arbenigwyr meddygol. Fodd bynnag, mae nifer o achosion yn setlo cyn cyrraedd y llys, er na fydd hyn o reidrwydd yn golygu y gwneir cyfaddefiad o atebolrwydd.

Gall diodesfwr ("yr hawliwr") gyflwyno hawliad sifil yn erbyn y sawl mae'n ei gyhuddo o fod yn atebol am ei anaf ("y diffynnydd"). Yng nghyd-destun hawliad sifil am iawndal ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, efallai y bydd y diffynnydd yn gamdriniwr ei hun. Os cafwyd

methiant sefydliadol, gall diffynnydd fod y sefydliad cyfrifol. Bydd yn rhaid i'r hawliwr ddangos fod y camdriniwr ac/neu'r sefydliad yn gyfreithiol atebol am y gamdriniaeth. Rhaid i'r hawliwr hefyd ddangos i'r gamdriniaeth rywiol achosi anafiadau'r hawliwr (corfforol neu seicolegol), a allai arwain at anawsterau penodol yng nghyd-destun anafiadau seicolegol a meintoli iawndal.

Mae nifer o hawliadau am gam-drin plant yn rhywiol yn deillio o ddigwyddiadau sawl blynedd neu hyd yn oed ddegawdau yn gynharach. Gall treigl amser rhwng y gamdriniaeth a'r hawliad cyfreithiol achosi anawsterau wrth gyflwyno hawliad. Fel math o hawliad anaf personol, mae hawliadau cam-drin plant yn rhywiol wedi eu llywodraethu gan adrannau 11, 14 a 33 y Ddeddf Cyfyngiadau 1980. Y rheol gyffredinol (ar wahân i blant a rhai gydag anabledd), yw bod yn rhaid cyflwyno hawliad o fewn tair blynedd i ddyddiad yr anaf neu'r "dyddiad dealltwriaeth", er bod gan y llys ddisgresiwn cyffredinol i ganiatáu hawliadau hwyr. Mae i ba raddau mae'r gyfraith cyfyngiadau presennol yn addas ar gyfer hawliadau cam-drin plant yn rhywiol wedi bod yn destun trafodaeth ers llawer o flynyddoedd.

Yr Ymchwiliad

Mae'r Ymchwiliad yn ceisio deall beth mae pobl gyda phrofiad o hawliadau sifil yng Nghymru a Lloegr, p'un a yw ar lefel bersonol neu broffesiynol, yn ystyried i fod yr elfennau pwysicaf o system gyfiawnder sifil effeithiol. Mae'r Ymchwiliad hefyd eisiau deall y rhesymau pam nad yw dioddefwyr a goroeswyr o reidrwydd wedi cyflwyno achos cyfreithiol, naill ai oherwydd nad oeddynt yn gallu gwneud hynny neu am eu bod wedi dewis peidio.

Mae'r Ymchwiliad yn ceisio barnau ar os yw'r broses gyfredol ar gyfer cyflwyno hawliad sifil yn effeithiol, a allai gynnwys os:

- Yw'r broses yn hygyrch i'r holl ddioddefwyr a goroeswyr;
- A wneir ymddiheuriad a/neu gyfaddefiad o euogrwydd (h.y. trosedd gyfreithiol);
- Y dyfarnir swm priodol o iawndal;
- Yw achosion yn cael eu cwblhau mewn modd mor amserol â phosibl;
- Yw hawliadau yn cael eu hymchwilio'n deg a hawlwr yn cael eu trin yn gyfartal;
- Yw hawlwr yn cael eu trin gyda sensitifrwydd.

Rydym yn gofyn am gyflwyniadau ar effeithlonrwydd y broses hawliadau sifil a diwygiadau posibl. Byddai'r Ymchwiliad yn croesawu eich barnau ar y materion canlynol. Ni ddylech deimlo bod angen i chi ateb pob adran, dim ond y rhai sy'n berthnasol i'ch profiad ac arbenigedd.

lawn yn gyffredinol

1. Pa ganlyniadau ddylai proses hawliadau sifil anelu at gyflawni ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol?
2. Yn eich profiad chi, i ba raddau mae'r broses hawliadau sifil cyfredol yn cyflawni'r canlyniadau hynny ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr?
3. Pa mor bwysig yw'r canlynol: yr hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol; yr hawl i ymchwiliad annibynnol a diduedd; yr hawl i'r gwirionedd ac atebolrwydd; iawndal; gwarantau na fydd yn digwydd eto; a gwasanaethau cefnogaeth?
4. Pa rai o'r uchod mae'r broses hawliadau sifil bresennol wedi eu darparu'n llwyddiannus?
5. Os oes yna elfennau nad ydych wedi ei nodi fel rhai a gyflawnir yn llwyddiannus ar bob adeg, beth, yn eich profiad chi, fu'r rheswm dros hyn?
6. Yn eich profiad chi, pam ydych chi/rhai dioddefwyr a goroeswyr wedi dewis peidio mynd ar drywydd hawliadau sifil?
7. Yn eich profiad chi, pam nad oeddech chi/rhai dioddefwyr a goroeswyr yn gallu mynd ar drywydd hawliadau sifil er eich bod eisiau gwneud hynny?
8. Beth yw manteision ac anfanteision hawliadau sifil fel modd o gyflawni iawn, o gymharu â gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol (Cynlluniau Iawndal Anafiadau Troseddol a gorchmynion iawndal a wneir gan lysoedd troseddol)?

Y broses hawlio sifil

Mae'r adran ganlynol yn delio'n benodol gyda rhai o'r materion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r broses hawliadau sifil.

9. A oes elfennau o'r broses hawliadau sifil a allai rwystro cyflawniad atebolrwydd ac iawn i ddioddefwyr a goroeswyr, ac os felly, ym mha ffordd? Yn benodol, gofynnir am gyflwyniadau ar y materion canlynol:
 - a. Y rhyngweithio rhwng unrhyw ymchwiliadau/achosion troseddol a hawliadau sifil;

- b. Argaeledd cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol;
- c. Nodi'r diffynnydd cywir ar gyfer unrhyw achos; er enghraifft, ble nad yw sefydliad yn bodoli bellach neu os yw wedi ei aildrefnu;
- d. Cwmpas unrhyw ddyletswydd gofal uniongyrchol gan sefydliadau;
- e. Dan ba amgylchiadau y gallai sefydliadau gael eu dal yn atebol am weithredoedd troseddol eu cyflogeion neu unigolion, yn cynnwys cydatebolrwydd, atebolrwydd dirprwyol a dyletswyddau na ellir eu dirprwyo;
- f. Cyfnodau cyfyngiad ar gyfer cyflwyno hawliad;
- g. Amddiffyniadau ar gyfer hawliadau cam-drin plant yn rhywiol (er enghraifft, cydsyniad a'r Ddeddf Iawndal 2006);
- h. Achosiaeth anafiadau ac asesiad a meintoli o iawndal, yn cynnwys iawndal cyffredinol, wedi gwaethygu ac arbennig;
- i. Tystiolaeth (yn cynnwys datgelu dogfennau a thystiolaeth arbenigol);
- j. Cyfaddefiadau o atebolrwydd ac/neu ymddiheuriadau;
- k. Setliad a Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR);
- l. Y broses o roi tystiolaeth a chael eich croesholi;
- m. Cyllid (yn cynnwys argaeledd cyllid cyhoeddus ac arall);
- n. Costau a chymesuredd;
- o. Hyd achosion sifil;
- p. Os yw diffynyddion unigol neu sefydliadol heb yswiriant ac nad oes ganddynt asedau arwyddocaol, a yw hyn yn atal mynd ar drywydd hawliadau sifil neu orfodi dyfarniadau sifil?

10. I ba raddau mae'r model o yswiriant ac/neu ymarfer cwmnïau yswiriant i lesteirio cyflawniad rhai neu holl elfennau iawn? Yn benodol, gofynnir am gyflwyniadau ar y materion canlynol:

- a. Rôl yswirwyr mewn ymchwiliadau neu adolygiadau, yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau;
- b. Rôl yswirwyr mewn hawliadau sifil;
- c. Y math o bolisi yswiriant a allai fod yn berthnasol i hawliadau o gam-drin plant yn rhywiol;
- d. Diffyg yswiriant ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gofynnol;
- e. Cymalau cyfrinachedd;
- f. Cymalau eithrio.

11. A oes elfennau eraill o'r broses hawliadau sifil a allai rwystro cyflawniad atebolrwydd ac iawn i ddiodefwrwr a goroeswyr? Os felly, beth ydynt?

12. I ba raddau mae unrhyw un o'r materion a grybwyllwyd uchod wedi llesteirio gweithrediad mesurau diogelu effeithiol gan sefydliadau?

Newidiadau, dulliau amgen neu rolau atodol ar gyfer unioniad

13. Yn eich profiad chi, a oes yna unrhyw beth sydd wedi ei gwneud yn anoddach i ddiodefwyr a goroeswyr gyflawni atebolrwydd ac iawn trwy'r system gyfiawnder sifil? Os felly, beth? Beth ellid ei wneud i helpu pobl i drechu'r rhwystrau hyn?

14. Pa newidiadau allwn ni eu gwneud i'r broses hawliadau sifil er mwyn ei gwneud yn haws i ddiodefwyr a goroeswyr gyflawni atebolrwydd ac iawn? Beth fyddai goblygiadau newidiadau o'r fath i ddiffynyddion, sefydliadau diffynnydd ac yswirwyr?

15. A oes dewisiadau amgen i'r broses hawliadau sifil a fyddai'n gallu darparu gwell atebolrwydd ac iawn i ddiodefwyr a goroeswyr, naill ai eu hunain neu ar y cyd â'r broses hawliadau sifil? Os oes, beth ydyn nhw?

Cymorth

16. Pa wybodaeth, cymorth ac adnoddau ydych chi'n ymwybodol ohonynt i helpu diodefwyr a goroeswyr (ac/neu eu teuluoedd) i gael mynediad at iawn trwy'r system gyfiawnder sifil?

17. Yn eich profiad chi, a yw pobl oedd angen y gwasanaethau a chefnogaeth yma wedi gallu cael mynediad atynt? Os na, pam?

18. Sut ellid gwella'r ddarpariaeth gyfredol o gefnogaeth yn eich barn chi?

Yn ogystal â'r materion a sefydlir uchod, anogir cyflwyniadau ar unrhyw agwedd o'r system gyfiawnder sifil i'r fath raddau ag y maent yn berthnasol i atebolrwydd ac iawn ar gyfer diodefwyr a goroeswyr.

Wrth wneud eich cyflwyniad, nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn. Rydym yn eich annog i ddelio â'r rhai sy'n berthnasol yn benodol i'ch profiad neu arbenigedd, yn bersonol a

phroffesiynol. Yn eich cyflwyniadau, dylech ddidoli eich ymatebion yn ôl gwahanol gwestiynau, a dynodi'n glir i ba gwestiwn neu gwestiynau ydych chi'n ymateb.

Cynhwyswch yr wybodaeth ganlynol ar yr holiadur atodedig yn rhan o'ch cyflwyniad:

- Eich oed a'ch rhyw;
- P'un a ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn;
- Pa sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli, os o gwbl;
- Beth yw eich swydd ac ers faint ydych chi wedi bod yn y swydd;
- P'un a hoffech i ni drin eich ymateb a manylion personol fel cyfrinachol, a'r rheswm dros hyn.

Bydd cyflwyniadau ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Ymchwiliad. Bydd yr Ymchwiliad hefyd yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r themâu allweddol o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd. Bydd yr adroddiad hwn yn helpu hysbysu seminarau a gynhelir pan fydd y broses gyflwyno wedi cloi. Byddwn yn gwahodd ystod o gyfranwyr i'r seminarau hyn i ystyried mewn manylder y themâu a nodwyd o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd.

Bydd y broses cyflwyniadau yn cloi am **hanner dydd ar 29 Medi 2016**.

Gellir gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg neu Saesneg a'u cyflwyno naill ai:

- Yn electronig i civilcomp@iicsa.org.uk, neu
- Yn ysgrifenedig: **Civil Justice System Issues Paper, PO Box 72289, Llundain, SW1P 9LF**

Cysylltwch â'r Ymchwiliad os ydych angen yr wybodaeth hon ar unrhyw fformat arall, megis Braille, print bras neu iaith arall. Gall yr Ymchwiliad dderbyn ffeiliau MP3 pe hoffech wneud cyflwyniad sain. Anfonwch eich ffeil sain at y cyfeiriad uchod.

Sylwer bod yr Ymchwiliad yn bwriadu cyhoeddi'r holl gyflwyniadau perthnasol. Nodwch ar yr holiadur atodedig os nad ydych yn dymuno i'ch enw ymddangos yng nghyhoeddiad yr Ymchwiliad. Byddwn yn ailystyried unrhyw gais am gyfrinachedd yn unol â'n rhwymedigaethau statudol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r papurau materion neu'ch ymateb arfaethedig, cysylltwch â'r Ymchwiliad yn y cyfeiriad e-bost uchod.